Dafydd Guto yn olrhain hanes y Crëwr Cardiau Post, a fu am gyfnod yn ei hanes, yn anfarwoli rhannau o Ben Llŷn

# Frederick H. Mahaffey (F.H. May) 1878 – 1960




Ganed Frederick H. Mahaffey, neu 'F.H. May', fel y'i hadwaenid, ym Melfast, Gogledd Iwerddon, a hynny yn y flwyddyn 1878. Daeth i drigo a gweithio ym Mhwllheli fel ffotograffydd. Beth a'i cymhellodd i ddyfod i dref glan môr Pwllheli sy'n ddirgelwch. Fel llawer o'r Gwyddelod, chwilio am waith mewn amser pur galed mae'n debyg oedd y prif gymhelliad iddo adael Iwerddon. Cefnodd ar Felfast a hyd yn oed addasu enw masnachol arno'i hunan, sef 'F.H. May' yn hytrach na Frederick H. Mahaffey, a swniai efallai'n llond ceg go iawn ran enw.

Ym Mhwllheli, tref a phorthladd ar ei thyfiant, bu'n byw mewn sawl lle. Gellir rhestru'r canlynol fel cartrefi May – Rathlyn, Ffordd Ala; Glan Rhyd, Teras Brookfield; Tŷ Mona a 20 Lôn Ala. Bu hefyd â stiwdio ffotograffau yn South Beach. Adwaenid F.H. May fel dyn tenau a arferai fynd ar gefn beic i bob man gan gludo'i gamera hefo fo. Gwisgai'n wastad *plus fours* ac, yn ôl 'John Pwllheli' yn 1995, a oedd ar y pryd yn gweithio dros dro yn Archifdy Gwynedd, arferai May lynu gwlanen gotwm ar gymylau mewn ffotograffau o'i eiddo, h.y. os oedd y cymylau a dynnodd â'i gamera yn edrych braidd yn ddi-siâp neu'n fflat fel crempogau. O gael gwell ffurf i'r cymylau ffotograffyddol, fe âi'r Gwyddel ati i'w hail-ffotograffu!

Datblygodd gyfresi cardiau post a oedd yn adlewyrchu ffordd o fyw mewn pentrefi a threfi ym Mhen Llŷn ac Arfon. Digon tywyll yw ei ffotograffau o ran ansawdd, a ran fynychaf maent yn cynnwys golygfeydd arfordirol sy'n cynnwys cymeriadau lleol a drigai'n Aberdaron, Aber-soch, Nefyn a Phwllheli. Serch hynny, y mae ganddo gardiau post sy'n cynnwys golygfeydd o Gonwy ac ochrau Harlech. Cardiau post braidd yn dywyll? Ia, a dydy hynny heb fod yn rhywbeth i'w ryfeddu ato oherwydd yn ôl a glywyd, gŵr ac un llygad ganddo oedd May, sy'n ei wneud yn fwy fyth o enigma ac yn ddyn rhyfeddol ar ryw ystyr gan fod y gelfyddyd o ffotograffu yn dibynnu cymaint ar fesur a rheoli goleuni.

Anodd gwybod yn union faint o gardiau post a gynhyrchodd May yn ystod ei oes oherwydd cwbl anhrefnus yw ei ddull o rifo'r cardiau dan sylw ac yn aml nid yw'n trafferthu i nodi rhif o gwbl ar gerdyn post o'i waith. Gwyddys iddo gynhyrchu cardiau post rhwng 1907-1953.

Gŵr priod oedd May pan ddaeth i Bwllheli, ond erbyn y flwyddyn 1930 roedd ei wraig wedi'i adael gan droi ei golygon am Iwerddon yn ôl pob golwg. Buont yn byw yn Rosemount, Pwllheli hyd y flwyddyn 1930 ac roedd ganddynt un ferch. Wedi i'w wraig godi'i phac a'i adael, bu May yn byw yn ei stiwdio ac mewn cwt pren tu ôl i'w dŷ. Dywedir i'w ferch ddyfod yn Brifathrawes Ysgol yn Abertawe ond ni wyddys dim byd o'i hanes. Pan fu farw May yn y flwyddyn 1960 gadawodd ei eiddo i Mrs Williams, Pwllheli a oedd wedi bod yn gofalu am ei siop ffotograffau yn y dref.

Deëllir nad oedd F.H. May yn ŵr cefnog o gwbl. Digon bethma oedd hi ym myd gwerthu cardiau post. Yn ddiddorol iawn, arferai May ffotograffu cymeriadau lleol a'u cynnwys ar ei gardiau post du a gwyn. Yn rhan o'r cefndir du a gwyn anfarwolwyd hyd byth ei wraig a'r ci, a hyd yn oed gymeriad lleol o'r enw Jac Roberts.

1907: gweithiai May o dŷ yn nheras Brookfield, Pwllheli.
1910-12: roedd ganddo stiwdio ffotograffu yng Nglân Rhyd, Lôn Newydd, Pwllheli.
1912-14: yn trigo yn Nhŷ Mona, 20 Lôn Ala, yr un dref.
1914-18: yn Rathlyn, Lôn Ala.
1928: South Beach.

Cyfeirir ato (yn) *Bennet's Business Directory, 1915* t.170 yn y Saesneg fel *P.H. Ffotograffwr, Ffordd Ala, Pwllheli*, ond erbyn y flwyddyn 1933 mewn hysbyseb yn yr un cyfeirlyfr â'r uchod cyfeirir ato fel cynhyrchwr amaturaidd sy'n cynnig gwasanaeth cysodi yn South Beach, Pwllheli. Erbyn y flwyddyn 1936 roedd Guy Hughes, mab y nofeles Gwyneth Vaughan, Eisingrug, Talsarnau, Meirionnydd, yn ffotograffydd yn y dref ac yn byw yn 5 Cardiff Road ac mae'n debyg fod cystadlu brwd am gwsmeriaid rhwng y ddau Gelt!

Bu farw P.H. May ar Fawrth 23, 1960 yn 82 mlwydd oed ac yn Ysbyty Gallt y Sil, Caernarfon y terfynodd ei oes ddaearol. Claddwyd ef ym mynwent newydd tref Pwllheli. Dyma beth a gyfieithwyd o'r *Caernarfon & Denbigh Herald*, Ebrill 1, 1960 t.4 colofn 5: *Bu farw dydd Iau, sef Mawrth 23 – Fred Mahaffy, Stiwdio Pencot, South Beach, Pwllheli. Adnabyddid fel Fred May, ffotograffydd tirluniau nodedig yn Ne Arfon am 30 mlynedd.* Nodir ei fod yn *arddwr brwdfrydig, yn enwedig yn ei ddyddiau cynnar, pryd yr arddangosai ei gynhyrchion gorau mewn sioeau yn Arfon*.

Roedd yn aelod o'r Gangen Leol o Toc H o'i chychwyn cyntaf ac yn aelod o Eglwys Sant Pedr ym Mhwllheli. Datgelir fod ei wraig wedi marw rai blynyddoedd ynghynt, a bod ganddo un ferch, Kathleen Mary, a oedd yn brifathrawes yn Abertawe.

Y mae'r *Herald Cymraeg* Ebrill 4, 1960 t.3 colofn 3 yn cloriannu gwaith P.H. May mewn llinell neu ddwy: *Ef* (dywedir amdano) *a gyflwynodd y dull o dynnu darluniau o olygfeydd yn y cylch ac yn eu gosod ar post cards i'w gwerthu – un o'r darluniau mwyaf adnabyddus oedd un o Huw y Felin, Aberdaron, yn arwain ei ful drwy un o ffyrdd pen Aberdaron gyda phwn o flawd ar ei gefn.*

Tybed mai cyfraniad mwyaf P.H. oedd rhoi dernyn bychan o Gymru ar y map, a gwerthu cardiau post a bortreadai Ben Llŷn gan greu ymwybyddiaeth o le ac amser? Yn anad dim byd arall, creodd waith inni'r Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg, o'r stiwdio i'r siop, o'r siop i'r Llythyrdy.



*Glan y môr, Pwllheli.*



*Golygfa o'r hen dref gyda mynyddoedd Meirion yn y cefndir.*